# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(65)v2

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 22.9 (15 munud)**

**NDM4985 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 01-12 – a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Mai 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid ceryddu Keith Davies AC.

**Dogfen Ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**4. Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) (60 munud)**

**NDM4984 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

Gosodwyd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a’r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 30 Ionawr 2012.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) gerbron y Cynulliad ar 4 Mai 2012.

**Dogfennau Ategol:**
[Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)]
[Memorandwm Esboniadol]
[Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol]

**5. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Asbestos (Adennill Costau meddygol) (Mick Antoniw) (60 munud)**

**NDM4955 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mick Antoniw gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ddydd Gwener 16 Mawrth o dan Reol Sefydlog 26.90.

Mae’r wybodaeth cyn y balot ar gael drwy fynd i:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_040.htm

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4986 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y sialensiau sy’n wynebu’r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth a’u gwerth i economi Cymru;

2. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyflawni polisïau costeffeithiol i gefnogi’r diwydiannau gwledig hyn; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymgysylltu’n adeiladol â rhanddeiliaid y diwydiant;

b) gwella tryloywder ei pholisïau; ac

c) sicrhau bod ei pholisïau’n cyflawni gwerth am arian ac nad ydynt yn tanseilio swyddi gwledig yn y sector preifat.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

sicrhau bod y sector coedwigaeth yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y lefel uchaf mewn unrhyw un corff amgylcheddol newydd.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw gweithredu'r cynllun Glastir wedi adlewyrchu pryderon y sector coedwigaeth yn ddigonol.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4987 Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Tîm Prydain Fawr: Cyfle Euraid.

Â'r Gemau Olympaidd yn cael eu cynnal ar yr ynysoedd hyn dros yr haf, mae'r ddadl fer hon yn ceisio cyflwyno'r ddadl chwaraeon, economaidd a diwylliannol o blaid caniatáu i bêl-droedwyr o Gymru gael bod yn rhan o Garfan Bêl-droed Tîm Prydain Fawr am y tro hwn yn unig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 22 Mai 2012